Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MEHEFIN 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 21ain Mehefin, 2006
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Huw Williams (Cad), Nerys Evans, Gwilym V.Thomas, Meurig Williams, Hugh Jones, Jason Hunt, Elwyn Jones, Gwilym L.Williams, Emrys Jones, Tom Ellis
HEFYD YN BRESENNOL	Bethan Williams (clerc)

1. Ethol swyddogion (mater o gyfarfod mis Mai)

Derbyniodd TE y swydd o is-gadeirydd.

2. Ymddiheuriadau

Elin Evans, Neal Williams, Cyng.Glyn Owen

3. Croeso

Estynwyd groeso cynnes i bawb.

4. Datgan Buddiant

Dim

5. Cadarnhau Cofnodion

Cadarnhawyd y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf (17.05.06) fel rhai cywir. cHJ eElJ

6. Materion yn Codi

a. ElJ – nodwyd fod twll wedi ymddangos yn y ffordd ger Dymuniad, Rhostryfan – clerc wedi rhoi gwybod i'r Adran Briffyrdd ond heb dderbyn ymateb eto.
b. Arwyddion Lein Bryngwyn – problem efo Caernarfon Signs, clerc wedi cysylltu efo cwmni Xpose Media ac yn y broses o gael cynhyrchu dau arwydd newydd.
c. Clerc wedi anfon tocyn llyfr at Dewi Tomos fel cydnabyddiaeth am ei help gyda'r arwyddion
d. GVT – gofyn be sy'n digwydd efo cae chwarae

Rhosgadfan, adroddiadau fod y gwair yn rhy hir i blant chwarae ynddo. Adroddodd HW mai ei gyfrifoldeb o ydy torri'r gwair ac y bydd yn digwydd yn fuan. Adroddodd HW hefyd ei fod yn tybio nad oes yswiriant ar y cae chwarae. Angen ysgrifennu at bwyllgor y cae chwarae i geisio cael eglurhâd llawn o'r sefyllfa. Gofyn i'r pwyllgor wneud cais i'r Cyngor Cymuned i gael help tuag at waith torri gwair rheolaidd. Awgrymwyd y dylid ysgrifennu at Rhian Griffith, yr ysgrifennydd i gael ymateb llawn. cGVT eEmJ

e. HJ – sbwriel yn casglu ger mynedfa Lôn Eifion – angen gofyn wrth y Cyngor Sir wagio'r biniau yn fwy rheolaidd. Wedi cael ymateb gan y Cyngor, maent wedi gaddo edrych ar y sefyllfa.
f. NW – angen atgoffa'r Cyngor Sir eto am y broblem gyda'r wal a'r ciosg yn Rhosgadfan. Steffan Jones wedi ymateb ac wedi gaddo gwneud y gwaith yn fuan.
g. Cwynion yn erbyn y Cyngor Sir – clerc wedi anfon llythyr ynghyd â rhestr o'r diffygion i'r uwch-swyddogion, ond hyd yma heb dderbyn unrhyw ymateb. Clerc i wneud copi pellach ac anfon y llythyrau eto gan ofyn am ymateb buan.
h. Safle Wê – er i'r clerc ysgrifennu i dri cwmni ychwanegol er mwyn ceisio cael pris ar gyfer creu safle wê, ni chafwyd ymateb gan yr un ohonynt. Penderfynwyd ffonio'r tri chwmni i gael gwybod os oes ganddynt ddiddordeb. cHJ eElJ
i. Llwybrau Caeau Cochion – wedi cael pris o £200 am waith clirio'r llwybr gan Siôn Owen. Penderfynwyd gofyn wrtho wneud y gwaith yn fuan. cElJ eEmJ
j. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd – mynychodd JH a'r clerc gyfarfod oedd yn amlinellu'r rheolau newydd sydd yn dod i rym yn fuan. Bydd gofyn i bob pwyllgor ystyried trosedd ac anrhefn wrth wneud bob penderfyniad yn y dyfodol, a hefyd bydd angen ail-edrych ar benderfyniadau'r gorffennol i weld os oes angen newid pethau i gymryd i ystyriaeth y rheolau newydd.
k. Pryniant tir ychwanegol ar gyfer Cefnfaes – roedd y clerc wedi gofyn am bris i Charles Medforth wneud y gwaith a chafwyd pris o £100 yr awr. Ystyrir y bydd

angen tua 2-3 awr i gwblhau'r gwaith. Penderfynwyd gofyn wrtho fynd ymlaen i ymchwilio'r mater ymhellach.

l. Gridiau Gwartheg – cafwyd ymateb gan Steffan Jones, Adran Briffyrdd yn nnodi fod archwiliad o'r gridiau wedi digwydd a'u bod hwythau hefyd o'r farn fod y gwaith yn ddiffygiol, ac fe fyddant yn trafod efo'r contractwyr er mwyn gwneud y gwaith priodol. Bydd y gridiau wedyn yn cael eu trosglwyddo i ofalaeth yr Adran Briffyrdd. Llythyr arall gan Steffan Jones yn ymateb i'n cais i wella'r ffordd rhwng Rhosgadfan a Rhostryfan . Nid oes cynlluniau i wneud gwaith fyddai'n ail-siapio'r ffordd eleni, ond efallai y byddant yn gwneud gwaith trwsio ar wyneb y ffordd, ac fe fydd y gwaith hwn yn digwydd yn ystod Gorffennaf/Awst.
m. Llythyr gan Cymad yn nodi nad ydy'r gwaith ffensio wedi'i ganiatau gan y Cynulliad eto gan mai dim ond un swyddog sydd yn gyfrifol am yr holl geisiadau a ddaw i law.
n. Llythyr gan Alun Ffred Jones yn nodi ei fod yntau wedi derbyn llythyr gan Cymad yn dweud nad ydy'r gwaith wedi'i gwblhau ac y bydd yn cysylltu'n ôl os y bydd yn derbyn ymateb pellach gan Cymad.
o. Llythyr gan D.W.Williams, Adran Priffyrdd – ymateb i'n cwynion ynglŷn â diffyg arwyddion ger mynedfeydd Lôn Eifion – mae wedi gaddo cysylltu â'r Uned Cefn Gwlad i drefnu arolwg o'r lleoliadau. Arwydd Groeslon Tryfan – wedi archebu arwydd, a gobeithio ei osod yn fuan. Arwydd 'dim ffordd drwodd' ger Glandŵr, Rhos Isaf – arwydd newydd bellach wedi'i osod. Hen bostyn ger Trem Werydd, Rhostryfan – trefniadau wedi'i wneud i dynnu'r postyn i lawr. Cafwydd copi o lythyrau a anfonwyd at Rhian Jones, Bryn Eithin oedd wedi tynnu ei sylw at nifer o ddiffygion ar lôn Bryn Eithin.
p. Lamp ger Bron Eryri, Rhosgadfan – cafwyd dau lythyr a deiseb gan drigolion rhif 11 Bron Eryri yn datgan nad ydynt am i'r cyngor fynd ymlaen efo'u cynlluniau i osod lamp ar y safle.
q. Cafwyd llythyr hefyd gan berchennog Pleasant View, Bron Eryri yn nodi nad oedd yntau ychwaith eisiau lamp. Penderfynwyd felly i ganslo'r gwaith.
r. Grant Cronfa Gwella Gwynedd – cafwyd llythyr yn cadarnhau fod Cyngor Llanwnda wedi bod yn llwyddiannus

ac wedi sicrhau cyfraniad ariannol o £5,000 tuag at gostau clirio'r llwybrau tu cefn i Bro Gilbert. Fodd bynnag, teimlai'r pwyllgor fod angen mwy o amser i baratoi'r deunydd priodol ar gyfer prisio ac ati. Clerc i ofyn os ydy'n bosib cael gohirio'r dyddiad cau o'r 30ain o Fehefin i, dyweder, 31ain Gorffennaf. ElJ yn nodi fod ffeiliau wedi eu darganfod sy'n profi mai Rheilffordd Ffestiniog sydd berchen y tir, ac y gobaith ydy fod y ffeiliau yn ein cyrraedd yn yr wythnosau nesaf.

s. Rhyddhad Ardrethi Gwledig – ymateb gan Paul Olsen ar ran Sue Essex. Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn a'r mater eto, ac fe fydd ymgynghoriad pellach yn digwydd.

t. Llythyrau gan Ymgymerwyr yn datgan eu bod yn derbyn rheolau Cefnfaes: Paragon, Penygroes; R.Hughes & Son, Llangefni; E.W.Pritchard, Llanberis.

u. Pencadlys Rhanbarthol yr Heddlu, Maesincla - Llythyr yn nodi fod ein gohebiaeth yn cael sylw

7. i Derbyn Adroddiadau

Dim

8. Is-bwyllgorau

Dim

9. Materion Ariannol

Balans ar ddiwedd 21.06.06	Cyfrif llog uchel:	22,460.46
	Cyfrif siec:	151.86
	CYFANSWM:	22,612.32
(i) Cymeradwywyd y taliadau canlynol:	Cyflog/Costau clerc	407.36
	Wyn Williams	229.00
	Cyllid y Wlad	90.64
	Anghenion Swyddfa	50.47
	Ad-daliad:	
	SLCC – llyfr yn costio'n llai na'r pris gwreiddiol	+7.00
	Pwyllgor Eisteddfod	+100.00
	Rhostryfan – ni chynhaliwyd yr eisteddfod eleni	
	YN WEDDILL	**21,941.85**

Ceisiadau am nawdd gan:

Adrian Johnson ar gyfer Cŵn y Deillion

Mynwent Hermon – angen arian ar gyfer addasu'r fynedfa
Y ddau gais i'w trafod ym mis Hydref

Hacker Young – rhybudd a hysbysebiad am yr archwiliad blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2006.

10. Materion Cynllunio

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol:
C06A/0450/24/AM – Cais amlinellol am 4 ty fforddiadwy ar safel ger Ael y Bryn, Rhosgadfan.

CO6A/0347/24/AM – datblygiad preswyl ar safle Gwynedd Farm Machinery, Dinas.

CO6a/0407/24/LL – newidiadau i gynllun Plot 4, Eglwys St.Michael, Rhostryfan.

CO6A/0420/24/LL – estyniad i 1 Tyn Llan, Dinas.

Wedi'i caniatau:
Caniatâd Adeilad rhestredig i newid defnydd – Tafarn Hen, Dinas
Dymchwel ac ail adeiladu ty, creu cwrtil a ffordd fynedfa newydd, gosod tanc septig a chreu menage a stabl – Cae Gwyn, Rhos Isaf
Lolfa wydr – Bodfan, Rhosgadfan.

Gwrthwynebiad i'r cais isod:
CO6A/0451/24/AM
Cais amlinellol i adeiladu 24 o dai ynghyd a newididau i Menai View, Llanwnda.
Teimlir fod y datlbygiad yn rhy fawr i'r ardal. Nodwyd fod y datblygwyr wedi cael ymgynghoriad gyda gwahanol asiantaethau, megis Priffyrdd, Dŵr Cymru a.y.y.b. ond nodwyd mai 8 tŷ yn unig y trafodir yn yr ymgynghoriadau hynny ond bellach mae'r cais yn gofyn am 24 tŷ. Oni ddylid cael ymgynghoriad ar y sail yma? Mae'r ymgynghorydd priffyrdd yn argymell mai 6 tŷ yn unig y dylid caniatau o ystyried y fynedfa. Mae'r ffordd yma yn brysur iawn yn ystod y dydd, ac fe fyddai creu datblygiad mor fawr ar y safle yn creu anhawsterau mawr yn yr ardal. Mae'r datblygiad hefyd yn groes i bolisi CH41 o'r Cynllun Datblygu Unedol gan fod hwnnw'n nodi 'bydd gofyn i

ddatblygiadau tai newydd sy'n cynnwys 10 tŷ neu fwy ddarparu llecynnau agored addas a mannau chwarae awyr agored yn rhan o'r datblygiad'.
Teimlai'r aelodau y byddai datblygiad llai, gyda'r pwyslais ar dai fforddiadwy yn fwy addas.

11. Gohebiaeth

i Adroddiad Bwrdd Iechyd Lleol ar arolwg o fodlondrwydd cleifion gyda Gwasanaeth Tu Allan i Oriau Meddygon Teulu.
ii Un Llais Cymru – bwletin
iii Un Llais Cymru – hysbysiad am gynhadledd a chyfarfod cyffredinol blynyddol
iv Cyfadran Amgylchedd Gwynedd – rhaglen waith
v Is-bwyllgor Cymynrodd Elizabeth Hughes – gwahodd aelodau i'r pwyllgor fel aelodau cyfetholedig heb bleidlais – doedd neb am fynd ar y pwyllgor.
vi SLCC – cydnabod aelodaeth a chyfraddau cyflogau clercod.
vii Llythyr gan D.Coleman ynglŷn â cynnal a chadw hawliau cyhoeddus (a dderbyniwyd mis diwethaf) – efallai y byddai modd cael ad-daliad am lwybr Horeb o'r cynllun hwn.
viii Llythyr, holiadur ac adroddiad Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Angen nodi fod modd gwella system o arwyddion sy'n bodoli ar lwybrau cyhoeddus. Er enghraifft, mae rhai llwybrau yn croesi tir agored a dim arwydd yn unman i nodi ymhle yn union mae'r llwybr.
ix Cynulliad – trefniadau etholiadau yng Nghymru.
x Charter 88 – llythyr yn gofyn am gefnogaeth i gynlluniau i ddwyn perswâd ar y llywodraeth i roi mwy o bwerau i'r cymunedau a'u trigolion.
xi Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – cofnodion ac agenda grŵp ymgynghorol yr heddlu a'r gymuned (Gwynedd).
xii Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru – poster yn nodi fod angen ymwelwyr dalfeydd annibynnol yn yr ardal.
xiii Wythnos Cymru'n Daclus – Mehefin 26ain – Gorffennaf 2ail
xiv CAB Gwynedd a De Ynys Môn – cyfarfod cyffredinol blynyddol ym Mhlas Menai, am 7 o'r gloch nos Wener, Gorffennaf 7fed
xv Ombwdsman Cymru – adroddiad blynyddol

12. Unrhyw Fater Arall – Materion ar gyfer mis nesa

i TE – angen cael arwyddion arafu ar gyfer ceir sydd yn mynd ar y ffordd newydd ger Groeslon gan fod llwybrau cyhoeddus yn croesi'r ffordd.

ii GLW – polyn Manweb wedi pydru'n ddrwg ger Glandwr, Rhos Isaf, a dŵr yn hel ar wyneb y ffordd ger Bowydd.

iii MW – cysgodfan bysiau Penyffridd – trafferthion yma eto, plant yn hel llanast ac yn maeddu'r gysgodfan.
Cyflwr gwyneb y ffordd tuag at Fynwent Rhosgadfan.

iv GVT – Bwrdd Dŵr – dŵr yn gollwng o beipen sydd ar dop allt Dafarn ers misoedd.

v NE – mynd i holi ysgol Rhostryfan ynglŷn â'r cwmni arbenigol sydd yn mynd i archwilio offer meysydd chwarae. Angen eu hystyried ar gyfer cae chwarae Tir Glas.
Nododd y clerc fod difrod wedi'i wneud i'r cae chwarae dros y penwythnos, a bod angen gwneud gwaith trwsio ar y gwch.

vi ElJ – angen torri gwrychoedd rhwng Rhostryfan/Ffrwd Cae Du a Rhostryfan/Dinas. Gofyn am brisiau a threfnu i wneud y toriad, efallai dau doriad, yn fuan.
Hefyd angen torri'r gwair ar lwybr sy'n arwain o Dolydd lawr at Hen Gastell a'r llwybr sy'n cyd-redeg â'r lein yn Dinas.

vii HW – palmant i lawr o Penyffridd i Trem Don.
Eithin yn broblem ar y lôn i fyny am Penrallt.

13. Cyfarfod Nesaf

19eg Gorffennaf, 2006 – Neuadd Rhostryfan – i'w gadarnhau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55p.m.